# CYNLLUNIAU MARCIO TGAU

**GAEAF 2022**

**TGAU**
**LLENYDDIAETH GYMRAEG - UNED 1**
**HAEN SYLFAENOL**
**3010N10-1**

© WJEC CBAC Cyf.

**RHAGARWEINIAD**

Defnyddiwyd y cynllun marcio hwn gan CBAC ar gyfer arholiad 2022. Penderfynwyd arno'n derfynol yn dilyn trafodaeth fanwl mewn cynadleddau arholwyr gan yr holl arholwyr oedd yn ymwneud â'r asesiad. Cynhaliwyd y gynhadledd yn fuan ar ôl sefyll y papur fel y gellid cyfeirio at yr amrediad llawn o ymatebion ymgeiswyr, gyda sgriptiau wedi'u llungopïo yn sail i'r drafodaeth. Amcan y gynhadledd oedd sicrhau bod y cynllun marcio wedi'i ddehongli a'i gymhwyso yn yr un modd gan yr holl arholwyr.

Gobeithir y bydd y wybodaeth hon o gymorth i ganolfannau ond cydnabyddir ar yr un pryd y gallai fod gan athrawon safbwyntiau gwahanol ynglŷn â manylion neu ddehongli gan nad ydynt wedi bod yn rhan o'r gynhadledd farcio.

Mae'n flin gan CBAC ond nid oes modd iddo ymgymryd ag unrhyw drafodaeth na gohebiaeth am y cynllun marcio hwn.

© WJEC CBAC Cyf.

**TGAU LLENYDDIAETH GYMRAEG**

**UNED 1 - HAEN SYLFAENOL**

**GAEAF 2022 CYNLLUNIAU MARCIO**

**Tai Unnos** gan Iwan Llwyd

**Ddoe a Heddiw** gan Ffion Elan

**Cymharu**

Gellir sôn am bwyntiau megis:

- Mae defnydd o'r gorffennol a'r presennol yng ngwaith Iwan Llwyd. Mae'n edrych 'nôl i'r gorffennol ac yn gweld nad oes dim wedi newid mewn gwirionedd rhwng ddoe a heddiw. Mae Ffion Elan hefyd yn cymharu bywyd y person yn y gorffennol a'r presennol.

- Mae'r ddau ddarn yn pigo ein cydwybod ni, ac yn ein hannog i feddwl mwy am y bobl ddigartref.

- Gweld y sefyllfa o safbwynt y person digartref mae Ffion Elan. Mae'n mynd â ni trwy'r gwahanol brofiadau, a'r gwahaniaeth rhwng yr amser yr oedd ei fywyd yn braf a'r presennol lle mae ei fywyd yn anodd. Creu darlun o'r hyn y mae'r digartref yn ei wneud i godi tai y mae Iwan Llwyd yn ei wneud.

- Mae 'Ddoe a Heddiw' yn canolbwyntio ar unigolyn, ond canolbwyntio ar y digartref yn gyffredinol a wna 'Tai Unnos'.

- Mae cyfeiriad at y sêr yn y ddwy gerdd. Sêr ffigurol sydd gan Iwan Llwyd, yn rhoi darlun o'r digartref yn gorfod cysgu allan yn yr awyr agored. Dweud bod y person wedi arfer bod yn seren, yn rhywun pwysig, y mae Ffion Elan.

© WJEC CBAC Cyf.

**Tai Unnos**

Gellir sôn am bwyntiau megis:

- Cawn olwg ar ddau fath o dŷ yn y gerdd hon. Un math a adeiladwyd yn yr oes o'r blaen i gartrefu pobl dlawd, a'r math arall sy'n cael ei adeiladu yn ein dyddiau ni i'r un pwrpas.
- Darlun o'r gorffennol a gawn ar y cychwyn gyda disgrifiadau o'r cerrig roedd yr hen bobl yn arfer eu defnyddio, a'u bod fel sbwriel.
- Mae'r trosiad 'cŷn a morthwyl y rhewlif', yn ogystal ag yn rhoi darlun o'r graig yn cael ei thorri, hefyd yn awgrym o ba mor galed oedd y gwaith o osod y tŷ at ei gilydd.
- Roedd y cerrig yn edrych fel sbwriel i'r bobl yn yr oes o'r blaen, yn union fel y mae bocsys cardbord yn cael eu cyfri'n sbwriel heddiw.
- Gyda'r ailadrodd 'gosod carreg ar garreg', cawn ddarlun o ba mor ofalus y mae'r bobl yn adeiladu'r tŷ, gan ei fod yn mynd i fod yn gartref iddyn nhw am flynyddoedd i ddod.
- Mae yna ymdeimlad o falchder ar ddiwedd y rhan gyntaf wrth i'r adeiladwr '[d]roi llafur yn freuddwyd'.
- Neidiwn i'r presennol yn awr, gyda'r bardd yn rhestru'r llefydd y mae pobl ddigartref yn gwneud eu tai. Mae'r rhain hefyd yn chwilio am ddefnydd i wneud eu tai, ond 'sbwriel' go iawn i'r gweddill ohonon ni yw'r hyn y mae'r rhain yn ei ddefnyddio.
- Er mai 'bocsys cardbord blêr' yn unig yw'r rhain, llawer gwannach a llai cadarn na'r 'cerrig llyfnion', maen nhw'n dal yn gartref, ac yn cynnig gwres a lloches.

© WJEC CBAC Cyf.

**Ddoe a Heddiw**

Gellir sôn am bwyntiau megis:

- Cawn ddarlun o ddyn hyderus ar ddechrau'r gerdd, ac mae'r 'uchel' yn cyferbynnu gyda'r dyn yn gorwedd yn isel ar y fainc.
- Mae amser yn bwysig yn yr ail bennill. Roedd oriau gwaith yn arfer bod yn bwysig i'r dyn, ond mae amser yn mynd yn araf iawn iddo erbyn hyn.
- Roedd gan y dyn gar, a gallwn ddychmygu bod y car hwn yn gar crand iawn.
- Erbyn hyn, yr unig ffordd y gall y dyn deithio yw ar ddwy droed. Cawn yr awgrym ei fod wedi colli popeth.
- Mae'r daith yn cyfeirio at daith arferol mewn car neu ar droed, ond gall gyfeirio at daith bywyd hefyd.
- Roedd yn arfer bod yn berson poblogaidd iawn, efallai oherwydd ei gyfoeth.
- Erbyn hyn, mae wedi troi yn 'neb' a phawb wedi anghofio amdano.

**Neges**

Er eu bod yn cyfeirio at yr un peth, mae neges y ddwy gerdd yn wahanol. Neges cerdd Iwan Llwyd yw nad yw pethau wedi newid o gwbl. Mae pobl yn dal i ddefnyddio sbwriel i adeiladu tai, ond bod y sbwriel sy'n cael ei ddefnyddio dipyn yn wahanol erbyn hyn.

Neges Ffion Elan yw y dylen ni fod yn meddwl am y bobl ddigartref ac yn ceisio eu helpu nhw. Ni ddylen ni fod yn anghofio am y bobl hyn fel yr awgrymir yn y pennill olaf.

© WJEC CBAC Cyf.

**Arddull Tai Unnos**

Gellir sôn am bwyntiau megis:

| Enghraifft | Nodwedd |
|---|---|
| **sbwriel oes yr iâ** | trosiad |
| **carreg ar garreg** | ailadrodd |
| **troi llafur yn freuddwyd** | cyferbyniad |
| **ar lannau traffyrdd...meysydd parcio** | rhestru |
| **rhoi trefn ar sbwriel** | cyferbyniad |
| **blêr** | ansoddair |

**Arddull Ddoe a Heddiw**

Gellir sôn am bwyntiau megis:

| Enghraifft | Nodwedd |
|---|---|
| **Dawel, dawel** | ailadrodd |
| **hedfan a wna'i oriau** | personoliad |
| **Oriau/eiliadau** | cyferbyniad |
| **Fel brenin balch** | cyffelybiaeth |
| **anoddach** | ansoddair |
| **Seren/neb** | cyferbyniad |

**Mesur**
**Mydr ac Odl**

Gyda mydr ac odl mae yna batrwm pendant, ac mae hyn yn awgrymu bod yna batrwm i fywyd, a bod pethau'n mynd mewn cylch.

**Tai Unnos**

Ceisio cael patrwm i fywyd a wna'r rhai sy'n ceisio 'codi tai' yn Tai Unnos. Efallai nad ydyn nhw'n llwyddo yn ôl safonau rhai, ond mae'r gorffennol a'r presennol yn y gerdd yn cynnig darlun o rai sy'n llwyddo i wneud y gorau o'r gwaethaf.

**Ddoe a Heddiw**

Mae'r dyn digartref yn y gerdd hon yn gobeithio bod bywyd yn mynd mewn cylch ac y bydd yn gwella ei stad unwaith eto. Mae'n eironig nad yw patrwm y mydr ac odl yn cael ei adlewyrchu yn ei fywyd ar hyn o bryd.

| | |
|---|---|
| **31-40** | Dangos dealltwriaeth eithaf da o'r cynnwys a'r neges/thema<br>Trafod yn eithaf da addasrwydd ac effeithiolrwydd arddull, mesur ac iaith i greu awyrgylch<br>Defnyddio rhai termau beirniadaeth lenyddol<br>Dangos ymateb personol eithaf da<br>Defnyddio dyfyniadau yn addas<br>Cymharu testunau'n eithaf da<br>*Cyflwyno'r gwaith yn drefnus*<br>*Arddangos gafael gyson ar sillafu, atalnodi a gramadeg ar y cyfan* |
| **21-30** | Dangos peth dealltwriaeth o'r cynnwys a'r neges/thema<br>Trafod ychydig ar addasrwydd arddull, mesur ac iaith i greu awyrgylch<br>Ymgais i ddefnyddio termau beirniadaeth lenyddol<br>Dangos peth ymateb personol<br>Defnyddio dyfyniadau addas<br>Ymgais i gymharu testunau<br>*Cyflwyno'r gwaith yn lled drefnus*<br>*Gafael anghyson ar sillafu, atalnodi a gramadeg* |
| **11-20** | Ymgais i ddangos dealltwriaeth o'r cynnwys a'r neges/thema<br>Ymgais i drafod addasrwydd arddull, mesur ac iaith i greu awyrgylch<br>Ymgais i ymateb yn bersonol<br>Defnyddio ambell ddyfyniad<br>Peth ymgais i gymharu testunau<br>*Dangos trefn mewn rhannau o'r gwaith*<br>*Peth gallu i sillafu, atalnodi a defnyddio gramadeg yn gywir* |
| **0-10** | Ymgais i ddangos peth dealltwriaeth o'r cynnwys a'r neges/thema<br>Cyfeirio at arddull/iaith i greu awyrgylch<br>Dechrau ymateb yn bersonol<br>Ymgais i ddefnyddio ambell ddyfyniad<br>*Ymgais at ddilyniant*<br>*Gafael gyfyngedig ar sillafu, atalnodi a gramadeg* |



© WJEC CBAC Cyf.